

[8]

# Pecyn Cymorth Dad-drefedigaethu

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2025

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

CBHC RCAHMW

LLGC NLW

AMGUEDDFA CYMRU

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Tabl Cynnwys


**RHAN I: CEFNDIR** 3

1. Cydnabyddiaethau 3
2. Cyflwyniad 4
3. Pwysigrwydd iaith 9
4. Rhybuddion cynnwys a pholisi tynnu i lawr 12

**RHAN II: PECYN CYMORTH** 15

5. Dad-drefedigaethu'r cynnwys presennol yn CyWC 15
6. Dad-drefedigaethu cynnwys yr hoffech chi ei lanlwytho i CyWC 25

**RHAN III: ATEGOL** 28

7. Ymatebion negyddol posibl 28
8. Adnoddau Ychwanegol 29

**CYFEIRIADAU A NODIADAU** 32

# RHAN I: CEFNDIR

## 1. Cydnabyddiaethau

Dymuna Casgliad y Werin Cymru ddiolch i Carissa Chew o Rwydwaith Terminoleg Treftadaeth Ddiwylliannol am y cyngor a ddarparodd o safbwynt y pecyn cymorth yma.

Hoffem hefyd ddiolch i aelodau Grŵp Tasg a Gorffen Dad-drefedigaethu Casgliad y Werin Cymru am eu mewnbwn a'u hadborth, gan gynnwys Dr Marian Gwyn (Race Council Cymru), Ophelia Dos Santos, Klavdija Erzen a Rema Begum (Young Muslim & Community Organisation).

# RHAN I: CEFNDIR

## 2. Cyflwyniad

**Yng Nghasgliad y Werin Cymru (CyWC) rydyn ni wedi ymrwymo i ddad-drefedigaethu ein Casgliad. Beth mae hyn yn ei olygu?**

Mae dad-drefedigaethu yn broses o gyfiawnder adferol sy'n ceisio datgymalu systemau anghydraddoldeb, nid yn unig mewn perthynas ag anghydraddoldeb hil ond rhywiaeth, ableddiaeth, homoffobia, trawsffobia, anoddefgarwch crefyddol, dosbarthiaeth, lliwiaeth, a rhagfarnau eraill. Mewn egwyddor, mae dad-drefedigaethu casgliadau yn cydnabod rôl annatod yr ymerodraeth mewn sefydliadau diwylliannol fel amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd. Mae'n cydnabod bod eu casgliadau yn aml wedi hyrwyddo safbwyntiau hiliol a rhagfarnllyd o'r byd, a bod hyn wedi arwain at ymyleiddio pobloedd, hanesion a straeon penodol. Mae sawl safbwynt ar yr hyn y dylai dad-drefedigaethu casgliadau ei olygu yn ymarferol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi wylio'r fideo 2 funud hwn gan yr Athro Priyamvada Gopal ar ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm yn Lloegr.

Er bod gwaith yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn broses adeiladol, mae dad-drefedigaethu yn broses ddiagnostig a datgymalol. Mae'n cynnwys herio niwtraliaeth ac etifeddiaeth gormes yn ogystal â chydnabod pŵer a braint. Mae'n cael ei yrru gan awydd am gyfiawnder a thegwch, am ail-gydbwyso grym a chynrychiolaeth. Mae'n ategu’r agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ail-ddychmygu'r ffordd rydyn ni’n gweithio, gyda phwy rydyn ni’n gweithio a beth rydyn ni’n ei werthfawrogi.

# RHAN I: CEFNDIR

## 2.1 Mae llawer o gynnwys trefedigaethol, dadleuol a hiliol mewn casgliadau treftadaeth

Mae Casgliad y Werin Cymru yn cael ei arwain gan dri sefydliad cenedlaethol: Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Rydyn ni’n cydnabod y rôl y mae trefedigaethu wedi'i chwarae yn yr hanesion, strwythurau, arferion a chasgliadau sefydliadol hyn, a sut y gallai hyn gael ei adlewyrchu yn eu cyfraniadau i CyWC. [1]

Mae CyWC yn gasgliad digidol cenedlaethol sy'n casglu, yn diogelu ac yn dathlu hanes amrywiol Cymru a'i phobl. Mae wedi'i wreiddio'n gadarn mewn arferion democrataidd, grymusol a chydweithredol: fel casgliad pobl Cymru, gall unrhyw un gyfrannu deunyddiau i'r Casgliad. Mae hyn yn cynnig cyfle gwych i ddad-drefedigaethu yn ogystal â chynyddu amrywiaeth y Casgliad, ac rydyn ni’n cydweithio'n agos â chymunedau a phartneriaid treftadaeth ledled Cymru i alluogi a chefnogi eu cyfraniadau.

Serch hynny, rydyn ni’n cydnabod ein braint a'n pŵer ni wrth lunio naratifau a chreu cysylltiadau, trwy awdurdod y tri phartner ffederal a thrwy ein rôl ni fel cyfrannwr, cymedrolwr, curadur, gwarcheidwad a hyrwyddwr cynnwys. Felly, er bod llawer o'r eitemau (a'u dehongliadau) yng Nghasgliad y Werin Cymru yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddwyr ac felly nid yn 'eiddo' i ni, fel platfform cynhwysol, diogel a dibynadwy rydyn ninnau hefyd yn gyfrifol am ei ddad-drefedigaethu.

Gweler ein Siarter Dad-drefedigaethu'r Casgliad i ddarllen mwy am ein hymrwymiad i gynnal ein hatebolrwydd.

# RHAN I: CEFNDIR

## 2.2 Beth y mae hyn yn ei olygu i CyWC?

Rydyn ni wedi ymrwymo i adolygu cynnwys ar ein gwefan a allai achosi niwed neu ofid. Bydd hyn yn cynnwys cynnal archwiliadau rheolaidd o'n Casgliad i nodi a labelu cynnwys hiliol neu ragfarnllyd, sydd â chysylltiadau ag ymddygiad ymosodol trefedigaethol neu'r fasnach mewn caethwasiaeth ar draws yr Iwerydd, neu sy'n cynnwys hanes trefedigaethol.

Ni fydd ein hagenda dad-drefedigaethu yn cynnwys sensoriaeth o ddeunyddiau hanesyddol nac yn dileu unrhyw eitemau na'u dehongliad gwreiddiol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithredu ein polisi tynnu i lawr presennol ar gyfer deunydd amhriodol, anghyfreithlon a deunydd â hawlfraint. Rydyn ni’n cydnabod pwysigrwydd cipio sut mae gwrthrychau a deunyddiau archifol wedi cael eu dehongli yn y gorffennol. Mae gan hyn werth addysgol gwych, i ni ac i genedlaethau'r dyfodol, felly ni ddylid dileu'r dehongliadau hanesyddol hyn. Yn hytrach, byddwn yn gweithio gyda'n cyfranwyr i adolygu disgrifiadau a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a'n llais curadurol ein hunain. Byddwn yn rhoi pethau yn eu cyd-destun drwy ychwanegu **rhybuddion cynnwys** a chreu **llwybrau archwilio** (gweler adran 5.1) er mwyn darparu gwybodaeth gywir am gasgliadau a gwella’r broses o allu darganfod eitemau. Byddwn yn adolygu'r iaith a ddefnyddiwn yn gyson i sicrhau ei bod yn adlewyrchu terminoleg ddewisol unrhyw gymunedau sy'n cael eu cynrychioli. A thrwy ein llwybrau archwilio, byddwn yn dryloyw ynghylch y penderfyniadau a wnawn.

Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu cydberthnasoedd sy'n gwerthfawrogi gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad bywyd y gymuned, ac yn cydweithio â'n cyfranwyr a'n partneriaid i rannu gwybodaeth ac arferion gorau gyda rhyddid. Ar ddiwedd y pecyn cymorth hwn, rydyn ni’n eich cyfeirio at rai adnoddau ychwanegol a allai fod o gymorth i chi.

# RHAN I: CEFNDIR

## 2.3 Beth mae hyn yn ei olygu i'n cyfranwyr: Hoffem gael eich help

Mae'r rhan fwyaf o'r eitemau ar ein gwefan yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddwyr: maen nhw wedi’u creu a’i gyfrannu gennych chi, bobl Cymru. P'un a ydych chi'n unigolyn neu'n grŵp cymunedol, yn amgueddfa, yn llyfrgell neu'n archif, neu'n bartner addysg, nid yw eich cynnwys yn 'eiddo' i ni yn CyWC, yn hytrach mae'n cael ei rannu gennych chi. Felly, mae angen eich help arnom gyda’r gwaith hwn.

Rydyn ni’n eich gwahodd chi – ein cyfranwyr – i ymyrryd, adolygu, cwestiynu ac adolygu unrhyw naratifau trefedigaethol neu ragfarnllyd, ac i greu rhai newydd, wedi'u dad-drefedigaethu.

Gallwch wneud hyn drwy:

1. *Cysylltu â ni pan fyddwch yn gweld rhywbeth ar y safle yr ydych yn teimlo a allai achosi tramgwydd neu niwed.*
2. *Adolygu'r cynnwys rydych chi wedi'i lanlwytho (newydd a phresennol) trwy lens dad-drefedigaethu. Gweler Adrannau 5 a 6 am arweiniad.*
3. *Gwneud defnydd llawn o'n 'egwyddor ailddefnyddio' unigryw, lle gall eraill ailddefnyddio unrhyw eitem yng Nghasgliad y Werin Cymru (waeth pwy sy'n ei gyfrannu) i greu casgliadau newydd ac adrodd straeon gwahanol.*

## 2.4 Y pecyn cymorth hwn

Rydyn ni’n gweithio'n galed i ddeall yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud fel rhan o'n hymrwymiad i'r gwaith hwn. Ar hyd y ffordd, rydyn ni’n darganfod adnoddau defnyddiol y byddwn yn eu rhannu yn y pecyn cymorth hwn. Rydyn ni hefyd yn cynnig dull cam-wrth-gam o ddad-drefedigaethu un eitem/delwedd a'i thestun, yn seiliedig ar y camau rydyn ni wedi'u gweld yn ddefnyddiol yn ein gwaith ein hunain. Gobeithiwn y bydd hyn yn cynyddu eich hyder chi wrth gyhoeddi deunydd ar CyWC ac yn rhoi fframwaith i chi ar gyfer gwneud hynny.

# RHAN I: CEFNDIR

Mae hwn yn waith ar y gweill a bydd y pecyn cymorth hwn yn cael ei ddiweddaru wrth i'n gwaith barhau.

Hoffem weithio mewn cydweithrediad â chi ar hyn, ble bynnag yr ydych ar eich taith dad-drefedigaethu. Rydyn ni'n croesawu sgiliau a rhannu gwybodaeth, ac yn cydnabod, er bod gennym ni lawer i'w gynnig, mae gennym ni hefyd lawer i'w ddysgu.

Cysylltwch â ni os hoffech chi weithio gyda ni drwy e-bostio:
casgliadywerin@llgc.org.uk.

# RHAN I: CEFNDIR

## 3. Pwysigrwydd iaith

Cyn i ni fynd ymlaen i ymdrin â’r pethau ymarferol, hoffem bwysleisio pwysigrwydd iaith wrth ddad-drefedigaethu. Mae iaith yn bwysig, yn enwedig yr iaith rydych chi'n ei defnyddio i ddisgrifio eraill. Nid yw'n 'niwtral' nac yn 'wrthrychol’. Ac mae iaith yn arf pwerus. Mae'n ffordd o gyfathrebu ac yn gludwr diwylliant. Mae'r ffordd y mae eitem yn cael ei disgrifio ar CyWC yn siapio'r ffordd rydyn ni'n edrych arno ac yn meddwl amdano.

Yn yr adran hon, hoffem eich cyflwyno i'r Rhestr o Derminoleg Gynhwysol, project ar-lein cydweithredol sy'n rhoi arweiniad ar iaith wahaniaethol a niweidiol i weithwyr proffesiynol treftadaeth ddiwylliannol y DU.[2] Fel mae'r Rhestr yn dweud, "Mae unioni iaith wahaniaethol yn dasg frawychus ac efallai bod gweithwyr yn y sector treftadaeth ddiwylliannol broffesiynol yn teimlo pwysau i 'gael pethau'n iawn’. Er ei fod yn heriol, nid yw hyn yn esgus i ni gilio oddi wrth waith disgrifio cynhwysol.”

Mae rhai newidiadau'n syml a phlaen: Defnyddio 'wedi'u caethiwo' yn hytrach na ‘caethwas' neu 'fforiwr Prydeinig yn Affrica' yn hytrach na 'fforiwr Affricanaidd’. Fodd bynnag, mae newidiadau eraill yn fwy cymhleth.

Yn CyWC rydyn ni wedi gweld yr Rhestr yn hynod ddefnyddiol, ac rydyn ni’n ei defnyddio yn yr holl enghreifftiau yn y pecyn cymorth hwn. Ac er mwyn gwneud ein cyfraniad bach ein hunain i'r gwaith hwn, rydyn ni wedi ariannu cyfieithiad o'r Pecyn Gwybodaeth a rhan gyntaf yr Rhestr - 1.1. Hanes Americanwyr Affricanaidd a Masnach mewn Caethweision ar draws yr Iwerydd - i'r Gymraeg. Gobeithiwn y bydd yr adnodd dwyieithog hwn (y byddwn yn parhau i'w ehangu lle bo modd) yn eich helpu ar eich taith dad-drefedigaethu.

# RHAN I: CEFNDIR

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cyfeirio at Eirfa Terminoleg Gynhwysol y Rhwydwaith Terminoleg Treftadaeth Ddiwylliannol fel adnodd ar gyfer dad-drefedigaethu casgliadau. Rydym yn cydnabod bod iaith a therminoleg yn esblygu'n barhaus. Mae geirfaoedd ac adnoddau eraill ar gael a allai gynnig safbwyntiau gwahanol. Hoffem annog defnyddwyr i archwilio ystod o ffynonellau er mwyn gwella eu dealltwriaeth a'u dull o ymdrin â dad-drefedigaethu.

## 3.1. Rhestr o Derminoleg Gynhwysol

Mae'r Rhestr o Derminoleg Gynhwysol yn ddogfen 'fyw' sydd wedi'i chynllunio i'ch helpu gyda'r dasg o nodi a mynd i'r afael â iaith wahaniaethol a deunyddiau niweidiol sy'n ymddangos nid yn unig mewn casgliadau archifol, ond ar draws unrhyw gatalogau, cymhorthion chwilio, adnoddau addysg neu wefannau.

Er efallai na fydd y Rhestr bob amser yn dweud wrthych beth yw'r term 'cywir' i'w ddefnyddio, y gobaith yw y bydd yn darparu digon o wybodaeth i chi ddechrau cynhyrchu'r ymwadiadau iaith angenrheidiol, cyngor ar gynnwys, a nodiadau cyd-destunol i ddechrau ymdrin â'r mater o iaith wahaniaethol a deunyddiau a all beri gofid o bosibl. Gan fod y Rhestr yn waith ar y gweill ac yn cael ei diweddaru'n barhaus, fe'ch anogir i ddefnyddio eich crebwyll i ddod i'r penderfyniad gorau ac ymgynghori â chymunedau perthnasol a/neu adnoddau ychwanegol pan nad yw'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhestr yn ddigonol.

Gallwch hefyd gyfrannu'n uniongyrchol at y Rhestr ei hun. Gweler 'Gwneud Awgrym' yn y Pecyn Gwybodaeth (t. 9) am ragor o fanylion, a nodwch fod croeso i gyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Fe'ch cynghorir i ddarllen y Pecyn Gwybodaeth yn gyntaf, gan ei fod yn rhoi gwybodaeth am sut y gellir defnyddio'r Rhestr.

Gallwch ddod o hyd i'r Rhestr ar Google Drive yma.

# RHAN I: CEFNDIR

Ar hyn o bryd mae'r Rhestr yn cynnwys terminoleg ar y pynciau canlynol:

- *1.1 Hanes Americanwyr Affricanaidd a Masnach mewn Caethweision ar draws yr Iwerydd*
- *1.2 Hanes Americanwyr Brodorol*
- *1.3 Pobl Frodorol Canada, yr Ynys Las, Siberia a Dwyrain Pell Rwsia*
- *1.4 Pobl frodorol y tiroedd a elwir bellach yn Awstralia ac Aotearoa (Seland Newydd)*
- *1.5 Hanes Hawaii a Hawaiaid Brodorol*
- *1.6 Ymerodraethau ac Imperialaeth*
- *1.7 Cymunedau sy'n Teithio: Sipsiwn, Roma a Theithwyr*
- *1.8 Dirmyg Cyfoes*
- *1.9 Palesteina*
- *2. Hanes Anabledd ac Iechyd Meddwl*
- *3.1 Hanes LHDTCRhA+*
- *3.2 Hanes Menywod*
- *3.3 Hanes Gwrywdod*
- *4.1 Hanes Gwrth-semitiaeth*
- *4.2 Sectyddiaeth yn yr Alban*
- *5. Hanes y Dosbarth Gweithiol*
- *6. Lleoliadau ac Enwau Lleoedd*
- *7. Cyfiawnder Cymdeithasol a Chatalogio Beirniadol*

(Diweddarwyd diwethaf: 24/10/2024)

# RHAN I: CEFNDIR

## 4. Rhybuddion cynnwys a pholisi tynnu i lawr

Gofynnwn i'n holl gyfranwyr ein rhybuddio pan fyddant yn gweld rhywbeth ar y safle y teimlant a allai achosi tramgwydd neu niwed fel y gallwn ychwanegu rhybuddion cynnwys priodol ar lefel eitem i'n Casgliad. Yn ogystal â rhybuddion ar lefel eitemau, rydyn ni hefyd wedi cyflwyno rhybudd cynnwys ar lefel catalog yn CyWC fel rhan o'n gwaith dad-drefedigaethu. Rydyn ni'n esbonio ein hierarchaeth rhybuddio cynnwys yma yn ogystal â'n polisi tynnu i lawr presennol er mwyn i chi fod yn ymwybodol o'r fframwaith y bydd eich deunydd yn cael ei gyhoeddi ynddo ar y wefan. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi fel enghraifft hefyd os ydych chi'n cadw neu'n cyhoeddi eich deunydd mewn mannau eraill hefyd.

### 4.1 Rhybudd cynnwys ar gyfer y casgliad cyfan

Yn dilyn arweiniad gan sefydliadau eraill, rydyn ni wedi penderfynu ychwanegu rhybudd cyffredinol i'n casgliad cyfan i gydnabod y cynnwys problemus rydyn ni'n darparu mynediad iddo ac yn rhybuddio defnyddwyr am yr hyn y gallen nhw ddod ar ei draws. [3] I fod yn hygyrch, mae angen i ddatganiad cynghori fod yn glir, yn gryno, ac yn ddiamwys.[4]

Mae rhybudd cynnwys cyffredinol CyWC wedi'i addasu o un Amgueddfa Archaeoleg ac Anthropoleg, Prifysgol Caergrawnt, ac Amgueddfa Horniman.

Mae'n darllen fel a ganlyn:

Gall cyfraniadau i Gasgliad y Werin Cymru gynnwys disgrifiadau a darluniadau hanesyddol sy'n anghywir yn ffeithiol, sy’n drefedigaethol, sy’n hiliol, sy’n wahaniaethol neu sy’n amhriodol mewn ffordd arall. At hynny, mae’n bosib y bydd eitemau’n defnyddio iaith a gymerwyd o ddogfennau hanesyddol, sydd bellach wedi dyddio ac yn ddifrïol. Byddem yn croesawu eich help i adnabod eitemau sy'n tramgwyddo neu’n niweidio, a byddem yn ddiolchgar pe bach yn cysylltu â ni yma - casgliadywerin@llgc.org.uk. Ewch i'n Siarter Dad-drefedigaethu'r Casgliad i gael gwybod mwy.

## 4.2 Rhybuddion cynnwys ar gyfer eitemau unigol

Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i ychwanegu rhybuddion penodol ar ddechrau tudalen eitem pan fydd cynnwys sarhaus wedi'i nodi, a byddwn yn gweithio gyda'n cyfranwyr i wneud hyn (fel yr amlinellir yn Adrannau 4 a 5). Mae hyn yn caniatáu i bobl ddewis a ydyn nhw am ymgysylltu â chynnwys a allai beri gofid iddyn nhw ai peidio. Ar yr un pryd, i ni a'n cyfranwyr, mae'n annog arfer o rybuddio a rhoi deunydd yn ei gyd-destun yn hytrach nag osgoi neu ddileu.

Mae rhybudd cynnwys CyWC ar gyfer eitemau unigol yn darllen fel a ganlyn:

**Rhybudd:** Mae'r eitem hon yn cynnwys deunydd (testun, delweddau neu sain) sy'n hiliol, sy’n sarhaus neu sy’n niweidiol mewn ffordd arall.

## 4.3 Ceisiadau i dynnu deunydd i lawr neu awgrymu cywiriad

Gellir gwneud cais i dynnu unrhyw gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr unwaith y mae'n fyw ar wefan CyWC. Gall unrhyw un wneud cais i'w dynnu i lawr drwy gysylltu â thîm CyWC. (Mae manylion y weithdrefn lawn yn ein Polisi Curadu Digidol.) Mae pob tudalen ar lefel eitem yn cynnwys dolen

# RHAN I: CEFNDIR

“Cysylltwch â ni i wneud cais i'w dynnu i lawr". Er mwyn galluogi defnyddwyr i gyfrannu at ein gwaith dad-drefedigaethu, rydyn ni wedi newid y geiriad i "Cysylltwch â ni i wneud cais i dynnu’r eitem neu i’n hysbysu am gynnwys hiliol, sarhaus neu niweidiol”.

# RHAN II: PECYN CYMORTH

## 5. Dad-drefedigaethu'r cynnwys presennol yng Nghasgliad y Werin Cymru

Wrth ddarllen y ddogfen hon efallai y byddwch chi’n gweld bod angen adolygu cynnwys rydych chi eisoes wedi'i gyhoeddi ar CyWC. Nid yw'n briodol newid cynnwys hanesyddol gwreiddiol rydych chi wedi'i lanlwytho ond, yn yr adran hon, byddwn yn eich tywys drwy'r broses o ddad-drefedigaethu'r wybodaeth ddisgrifiadol rydych chi wedi'i darparu.

Byddem yn eich annog i beidio â dileu neu dynnu'r cynnwys yn ôl o CyWC. Yn hytrach, rydyn ni’n gobeithio y bydd y pecyn cymorth hwn yn eich galluogi i'w weld fel cyfle i ddysgu gyda ni a'n helpu i wella ein gwybodaeth am gasgliadau. Fel y dywedwyd eisoes, mae dad-drefedigaethu'n broses ddiagnostig a datgymalol. Mae'n golygu sylweddoli a chydnabod camweddau a diofalwch yn y gorffennol, a thrwy wneud hynny gyfrannu at Gymru wrth-hiliol. [5] Felly yn hytrach na thynnu neu ddisodli cynnwys niweidiol, rydyn ni’n eich gwahodd i ychwanegu rhybuddion cynnwys at eich eitemau a / neu egluro a chywiro'ch disgrifiad trwy adael llwybr archwilio i dynnu sylw at gynnydd.

Gall dad-drefedigaethu'r cynnwys presennol gynnwys:

1. *ychwanegu rhybudd cynnwys; a/neu*
2. *nodi, cywiro a chyd-destunoli iaith broblemus drwy greu llwybr archwilio; a/neu*
3. *adnabod a thynnu sylw at unigolion, lleoedd, arferion neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â hanes a safbwyntiau problemus.*[6]

### 5.1. Llwybrau archwilio

Wrth adolygu'r cynnwys presennol ar CyWC, gofynnwn i chi adael nodyn ar waelod eich disgrifiad yn esbonio'r hyn rydych chi wedi'i newid, pryd, a pham. ‘Llwybr archwilio’ yw’r enw am hyn. Y rheswm pam rydyn ni'n gofyn i chi wneud hyn yw

nad ydym am ddileu dehongliadau gwreiddiol eitemau. Mae'n bwysig ein bod yn cadw cofnod o sut mae ein disgrifiadau a'n dehongliadau wedi newid dros amser.

Er y gallai edrych yn 'flêr' ar yr olwg gyntaf, mae gadael llwybr archwilio yn adlewyrchu egwyddorion craidd yr hyn y mae'n ei olygu i ddad-drefedigaethu ein Casgliad. Rydyn ni am i'n proses fod mor dryloyw â phosibl, ac rydyn ni am barhau i fod yn atebol am gamgymeriadau a diofalwch a fu yn y gorffennol.

Sut i ysgrifennu llwybr archwilio:

- Esboniwch sut y defnyddiwyd y teitl a/neu'r maes disgrifiad yn wreiddiol:
  - *h.y., Ar adeg lanlwytho'r eitem hon, copïwyd y teitl o'r clip newyddion ac roedd y maes disgrifio yn cynnwys cofnod wedi'i aralleirio o'r erthygl newyddion.*
- Disgrifiwch pam eich bod wedi golygu'r disgrifiad neu deitl y maes:
  - *h.y., Ar ôl ei adolygu, darganfuwyd bod y teitl a'r disgrifiad yn atgynhyrchu iaith hen ffasiwn, ddifrïol.*
- Disgrifiwch pa newidiadau rydych wedi'u gwneud:
  - *h.y., Er mwyn gwella'r broses o allu dod o hyd i'r eitem hon a pharchu'r bobl y cynrychiolir eu hanes, rhoddwyd y teitl mewn dyfynodau ac atodwyd y term "half-caste" (lledryw) gyda "hil gymysg".*
- Nodwch y dyddiad y gwnaed y newidiadau hyn:
  - *h.y. Cafodd y disgrifiad hwn ei ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2023.*

### 5.2. Adolygu cynnwys problemus a gwneud newidiadau

Y meysydd allweddol ar gyfer adolygu yw:

1. *yr eitem ei hun*
2. *teitl yr eitem*
3. *disgrifiad o'r eitem*
4. *tag(iau)*


# RHAN II: PECYN CYMORTH

Os oes unrhyw un o'r rhain yn cynnwys disgrifiad, arfer neu iaith drefedigaethol, wahaniaethol neu niweidiol (gallwch wirio'r Rhestr os nad ydych chi'n siŵr), rydyn ni'n argymell eich bod yn adolygu cofnod eich eitem.

## 5.2.1. Yr eitem ei hun

Os yw'r eitem ei hun yn cynnwys disgrifiad, arfer neu iaith drefedigaethol, wahaniaethol neu niweidiol, rydyn ni'n argymell eich bod yn dechrau trwy gysylltu â ni yn CyWC fel y gallwn ychwanegu rhybudd cynnwys i'r dudalen yn unol â 4.2 uchod. Yna gallwch ddefnyddio'r maes disgrifiad i roi'r eitem yn ei chyd-destun hanesyddol.

**Enghraifft:** Four Years' wages (1918), a grëwyd gan The Cambria Daily Leader, sy'n eiddo i Bapurau Newydd Cymru Ar-lein, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.



FOUR YEARS' WAGES

Found on Chinaman Charged With Assault.

At Aberavon on Monday, Ah Quai, a Chinese seaman employed on a British ship, was charged with assaulting Arthur Duff, second mate, and F. Battensby, the chief officer of the ship, and also with disobeying the lawful commands of the two officers. He was also charged under the Merchant Shipping Act. There was a cross-summons for assault. Mr. Evan Gibson Davies represented the second mate and captain, and Mr. Lewis M. Thomas was for Ah Quai.

Inspector Hall said that when charged the defendant denied the assault, and said that the officers struck him.

Defendant, in the box, denied the offence. He never gambled, but admitted in cross-examination that he had over £80 on him when arrested. This, he explained, was four years' wages. The chief mate hit him with a knuckle-duster.

The defendant was fined £10, and the cross summons dismissed.

# RHAN II: PECYN CYMORTH

Lanlwythwyd y ddelwedd hon o glipiau papur newydd i CyWC yn 2019 drwy gyfrif 'Project Llongau-U 1914-18'. Roedd Project Llongau-U 1914-18: Yn Coffáu'r Rhyfel ar y Môr yn broject a ariannwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, dan arweiniad Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Prifysgol Bangor a'r Gymdeithas Archaeoleg Forwrol.

Mae'r eitem yn rhan o gasgliad ar Longwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac, o'r herwydd, mae'n cael ei gynnwys i ddangos amrywiaeth gyfoethog morwyr yn ystod y rhyfel - agwedd ar hanes Prydain sydd wedi'i hesgeuluso.

Fodd bynnag, mae'r eitem yn cynnwys gair problemus: 'Chinaman'. Mae gan y Rhestr o Derminoleg Gynhwysol (1.6. Ymerodraethau ac Imperialaeth) gofnod helaeth ar gyd-destun hanesyddol y gair. Mae hefyd yn rhoi cyfeiriadau, pan fo rhai ar gael, a all fod yn ddefnyddiol os hoffech wneud ymchwil pellach.

Ar adeg lanlwytho, defnyddiwyd y maes disgrifiad ar gyfer trawsgrifio'r clip papur newydd yn unig ac i wneud y testun yn chwiliadwy, ynghyd â rhoi gwybodaeth ffynhonnell a hyperddolen i'r eitem ar Papurau Newydd Cymru Ar-lein.

I ddad-drefedigaethu'r eitem hon, buom yn gweithio gyda'r cyfranwyr i a) ychwanegu rhybudd cynnwys unigol; a b) ychwanegu paragraff (a gymerwyd o'r Rhestr) at y disgrifiad er mwyn rhoi'r eitem yn ei chyd-destun hanesyddol.

Mae'r paragraff llawn yn darllen:

# RHAN II: PECYN CYMORTH

Mae'r toriad hwn allan o bapur newydd o 1918 yn cynnwys y gair 'Chinaman' yn y teitl. Mae'r term 'Chinaman' yn derm hynafol o'r 18fed / 19eg ganrif ar gyfer pobl Tsieineaidd, a'r farn gyffredinol heddiw yw ei fod yn derm bychanol er bod rhai Americanwyr Asiaidd yn hunan-uniaethu ag ef. O ganlyniad i ddau Ryfel Opiwm, lle'r oedd pwerau trefedigaethol Prydain yn smyglo opiwm yn strategol o'u trefedigaethau De Asiaidd i borthladdoedd Tsieina yn groes i ewyllys llywodraeth Tsieina ganol y 19eg ganrif, gorfododd Prydain a Ffrainc lywodraeth Qing i awdurdodi ecsodus enfawr o weithwyr o Tsieina i wledydd y gorllewin ac i'w trefedigaethau i gymryd lle caethweision Affricaniaidd. Dyma ddechrau proses o wasgaru Tsieineaid ar draws y byd - o Dde-ddwyrain Asia i America, Affrica, Ewrop ac Awstralia. Roedd y mewnfudwyr hyn o Tsieina yn cael eu talu'n wael ac yn cael eu gorfodi i weithio mewn amodau peryglus ac anniogel, ac roeddent hefyd yn cael eu cam-drin yn hiliol fel arall. Mae'r idiom Saesneg "A Chinaman's chance in hell" yn cyfeirio at y modd yr oedd gweithwyr Americanaidd o Tsieina yn cael y swyddi mwyaf peryglus yng nghwmni Central Pacific Railroad. Yn y cyd-destun hwn y cafodd y term 'Chinaman' ei ddefnyddio mewn modd bychanol i annynoli Tsieineaid ar sail eu hethnigrwydd.

Cafodd y disgrifiad hwn ei ddiweddaru ym mis Medi 2023.
Ffynhonnell gyfeirio: Rhestr o Derminoleg Gynhwysol, 1.6.
Ymerodraethau ac Imperialaeth:
https://drive.google.com/drive/folders/1JlZG0zmzIzPauwqJ5JxxUajf5hYkD0ta


# RHAN II: PECYN CYMORTH

## 5.2.2. Teitl yr eitem

Wrth lanlwytho eich eitem, efallai eich bod wedi creu eich teitl eich hun neu wedi copïo teitl sy'n ymddangos yn yr eitem ei hun (fel pennawd papur newydd). Y naill ffordd neu'r llall, os yw teitl eich eitem yn cynnwys iaith drefedigaethol, wahaniaethol neu niweidiol, mae CyWC yn argymell eich bod yn ei hadolygu. Mae gwahanol ffyrdd o fynd i'r afael â hyn:

1. *Os mai'ch geiriad chi a ddefnyddir yn llwyr, gallwch ddisodli'r gair/geiriau sarhaus ac ychwanegu nodyn sy'n cofnodi'r newid hwn i'r disgrifiad o'r eitem er mwyn gadael llwybr archwilio yn unol â 5.1 uchod; neu*
2. *Os yw'r geiriad yn adlewyrchu teitl gwreiddiol neu iaith hanesyddol a ddefnyddir o fewn yr eitem ei hun, gallwch roi'r gair/geiriau sarhaus mewn dyfynodau a darparu dewis arall mwy priodol mewn cromfachau.*
3. *Os mai enw gwreiddiol dogfen, gwaith celf etc. yw teitl eich eitem neu os yw'n cynnwys yr enw gwreiddiol hwnnw, rydyn ni'n argymell eich bod yn rhoi'r elfen honno mewn dyfynodau dwbl.*

**Enghraifft**: "The Slave Trade", a grëwyd gan Spy 1851-1922, sy'n eiddo i Lyfrgell Genedlaethol Cymru - The National Library of Wales.



# RHAN II: PECYN CYMORTH

Mae'r eitem hon yn brint wedi'i sganio o Vanity Fair, 1873. Yr unig ddisgrifiad sydd gydag e yw ei fod yn gromolithograff a'i ddimensiynau. Byddem yn argymell gwella'r disgrifiad hwn i esbonio pwy sydd yn y print a pham y defnyddir yr ymadrodd "The Slave Trade", ac rydyn ni wedi dechrau sgwrs gyda'r cyfrannwr ynglŷn â gwella'r disgrifiad. Mae wedi'i gynnwys yma fel enghraifft o ddefnyddio dyfynodau dwbl.

### 5.2.3 Disgrifiad o'r eitem

Os yw'r disgrifiad o'r eitem a grëwyd gennych chi yn eich geiriau eich hun yn cynnwys iaith drefedigaethol, wahaniaethol neu niweidiol, rydyn ni'n argymell eich bod yn dechrau trwy chwilio yn y Rhestr o Derminoleg Gynhwysol. Efallai bod newid hollol syml y gallwch ei wneud i'ch disgrifiad, y gallwch ei gofnodi yn eich llwybr archwilio yn unol â 5.1 uchod.

Os yw eich eitem (neu unrhyw drawsgrifiad neu ddyfyniad uniongyrchol ohoni sy'n cael ei atgynhyrchu yn y disgrifiad eitem) yn cynnwys iaith drefedigaethol, wahaniaethol neu niweidiol, yn ogystal â chreu rhybudd cynnwys (fel y disgrifir yn 4.2) gallwch hefyd ddefnyddio'r disgrifiad o'r eitem i ddarparu cyd-destun hanesyddol. Rydyn ni'n eich annog yn arbennig i ddefnyddio'r disgrifiad o'r eitem i dynnu sylw at unrhyw unigolion, lleoedd, arferion neu ddigwyddiadau a gynrychiolir yn eich eitem sy'n gysylltiedig â hanesion a safbwyntiau problemus.

**Enghraifft**: 'Castell Penrhyn', a grëwyd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) ac sy'n eiddo iddo.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn un o dri phartner arweiniol Casgliad y Werin Cymru. Mae'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gyfrifol am gofnodi, dehongli a hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o adeiladau, henebion a thirweddau o bwysigrwydd archaeolegol, pensaernïol a hanesyddol yng Nghymru. Buom yn gweithio gyda'r Comisiwn Brenhinol i ddad-drefedigaethu'r eitem hon.

# RHAN II: PECYN CYMORTH



Mae'r disgrifiad sy'n cyd-fynd â'r ddelwedd hon o Gastell Penrhyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ei nodweddion pensaernïol, ond yn y darn hanesyddol mae'n cyfeirio at sut yr oedd Richard Pennant yn ymwneud â chaethiwo pobl o'r Caribî:

> Cafodd yr adeilad presennol ei greu gan y pensaer Thomas Hopper rhwng 1822 a 1837 i George Hay-Dawkins Pennant, a oedd wedi etifeddu ystad y Penrhyn ar ôl ei gefnder, Richard Pennant. Roedd Pennant ei hun wedi priodi i deulu'r Penrhyn ac wedi gwneud ei ffortiwn wedi hynny drwy'r diwydiant llechi yng ngogledd Cymru a **chaethwasiaeth** yn Jamaica.

Mae dwy ffordd y gellir dad-drefedigaethu'r disgrifiad hwn: 1) trwy ganolbwyntio ar ei iaith broblemus; a 2) trwy ehangu'r testun i gynnwys gwybodaeth bellach.

I ddechrau gyda'r cyntaf, mae 'slavery' ('caethwasiaeth') yn air problemus. Mae'r Rhestr o Derminoleg Gynhwysol (1.1. Hanes Americanwyr Affricanaidd a Masnach mewn Caethweision ar draws yr Iwerydd) yn datgan fod cydnabod caethiwo pobl Affricanaidd yn rhoi cydnabyddiaeth i'r trais a'r gormes sy'n rhan annatod o system caethwasiaeth. Mae'r term 'caethiwo' felly'n cael ei ffafrio weithiau.

Un ateb felly fyddai disodli 'caethwasiaeth' gyda 'caethiwo'. Fodd bynnag, er mwyn gwneud yn gliriach fyth, fe benderfynon ni ehangu'r testun.

# RHAN II: PECYN CYMORTH

Yn ail, er bod y disgrifiad gwreiddiol yn dangos ymwybyddiaeth o'r angen i sôn am gysylltiad Pennant â'r fasnach mewn caethwasiaeth ar draws yr Iwerydd, mae lle i ehangu. Gallai hyn fod naill ai drwy wneud gwaith ymchwil ac ychwanegu rhywfaint o wybodaeth a chyd-destun pellach i'r disgrifiad (fel sydd wedi cael ei wneud yma), a/neu drwy ddarparu dolenni fel y gall pobl wneud eu gwaith hymchwil eu hunain. Yn yr achos hwn, mae Castell Penrhyn bellach yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sydd wedi gwneud y gwaith pwysig o ddad-drefedigaethu ei hanes: https://www.nationaltrust.org.uk/cy/visit/wales/penrhyn-castle-and-garden/castell-penrhyn-a-hanes-fasnach-gaethwasiaeth.

Felly, er mwyn dad-drefedigaethu'r eitem hon, cafodd y gair caethwasiaeth ei ddileu ac ychwanegwyd gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol gryno, gan ddefnyddio’r derminoleg ei fod wedi caethiwo. Ychwanegwyd cyfeiriad at dudalen yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ychwanegu nodyn ar y gwaelod i ddangos y newidiadau a wnaed.

Mae'r paragraff a ddiweddarwyd yn darllen:

| |
|---|
| Cafodd yr adeilad presennol ei greu gan y pensaer Thomas Hopper rhwng 1822 a 1837 i George Hay-Dawkins Pennant, a oedd wedi etifeddu ystad y Penrhyn ar ôl ei gefnder, Richard Pennant. Roedd Pennant ei hun wedi priodi i deulu'r Penrhyn ac wedi gwneud ei ffortiwn wedi hynny drwy'r diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru a phlanhigfeydd siwgr yn Jamaica. Gwnaeth gaethiwo bron 1,000 o bobl ar draws ei bedair planhigfa. Roedd Hay-Dawkins Pennant hefyd yn berchen ar bobl a oedd wedi’u caethiwo, a chafodd £14,683 gan y llywodraeth pan gafodd yr arfer ei ddileu. (I gael rhagor o wybodaeth am sut y cafodd cyfoeth a enillwyd o'r fasnach gaethweision dros yr Iwerydd ei ddefnyddio i adeiladu Castell Penrhyn, ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: https://www.nationaltrust.org.uk/cy/visit/wales/penrhyn-castle-and-garden/castell-penrhyn-a-hanes-fasnach-gaethwasiaeth)* |

# RHAN II: PECYN CYMORTH

Mae'r nodyn ar y gwaelod yn darllen:

> * Cafodd y disgrifiad hwn ei ddiweddaru ym mis Mawrth 2024. Yn unol â'r 'Rhestr o Derminoleg Gynhwysol' (1.1. Hanes America Affricanaidd A Masnach Mewn Caethweision Yr Iwerydd https://docs.google.com/document/d/1G9VJIEIkGQVJDl0Sbw2nI_cCJVkNdUZM/), cafodd y gair 'caethwasiaeth' ei ddisodli gan frawddeg sy'n nodi sut a ble y gwnaeth Pennant gaethiwo pobl er mwyn crynhoi cyfoeth, a chafodd dolen gyswllt â gwefan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ei hychwanegu er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am hanes trefedigaethol y Castell.

### 5.2.4 Tag(iau)

Mae'r rhan hon o'r pecyn cymorth yn cael ei datblygu.

> **D.S.** Os ydych chi'n cyfrannu'ch cynnwys yn ddwyieithog, cofiwch wneud unrhyw ddiweddariadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# RHAN II: PECYN CYMORTH

## 6. Dad-drefedigaethu cynnwys yr hoffech chi ei lanlwytho i CyWC

Os ydych chi ar fin lanlwytho cynnwys newydd i CyWC, cymerwch eiliad i:

- **Ystyried** y ddelweddaeth, yr iaith a ddefnyddir, a tharddiad yr eitem. Os yw'r eitem yn darlunio, yn disgrifio neu'n cynnwys cysylltiadau â phobl neu ddiwylliannau sydd â hanes heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd wedi'i gam-gynrychioli, yna oedwch.
- **Cysylltwch** â thîm CyWC ar *casgliadywerin@llgc.org.uk* i ychwanegu rhybudd cynnwys ar ôl ei gyhoeddi os ydych chi'n teimlo y gellid ystyried yr eitem yn hiliol, yn sarhaus neu'n niweidiol.
- **Adolygwch** iaith unrhyw ddehongliad presennol (teitl, disgrifiad, pennawd neu destun arall) gyda chymorth y Rhestr o Derminoleg Gynhwysol. A yw'n cynnwys unrhyw derminoleg wahaniaethol, sarhaus neu niweidiol? A yw'n adlewyrchu persbectif trefedigaethol unochrog, rhagfarnllyd? Allwch chi ddarparu unrhyw gyd-destun hanesyddol?
- **Ystyriwch** weithio gyda chymunedau perthnasol neu bobl â phrofiad bywyd i helpu i wirio pethau na fyddwch chi wedi'u gweld.
- **Byddwch yn agored** i adolygu: Mae iaith yn esblygu ac mae barn yn newid dros amser.

**Enghraifft**: ‘Churchill's Minstrels, Theatr Happy Valley, Llandudno', crëwr anhysbys, eiddo i Wasanaeth Archifau Conwy.

# RHAN II: PECYN CYMORTH




Mae'r ddelwedd hon o gasgliad Gwasanaeth Archifau Conwy yn dangos ‘Churchill’s Minstrels’ yn Theatr Happy Valley, Llandudno, yn y 1920au. Roedd y ddelwedd wedi'i chynnwys yn flaenorol mewn sioe sleidiau 'Holidays in Llandudno' a grëwyd gan y gwasanaeth archifau gyda'r disgrifiad canlynol:

> Roedd gan Happy Valley gyfres o theatrau o faint cynyddol a oedd yn gallu dal cynulleidfaoedd enfawr. Yma, gwelwn ‘Churchill’s Minstrels’ yn y 1920au.

Er ei fod yn gywir ac i'r pwynt, nid oedd y disgrifiad gwreiddiol yn mynd i'r afael â'i gynnwys problemus. Gweithiodd CyWC gyda Kate Hallett, Uwch Archifydd a Rheolwr Cofnodion Gwasanaeth Archifau Conwy, i gyd-ysgrifennu disgrifiad a oedd yn caniatáu i'r ddelwedd gael ei chyhoeddi ar CyWC gan gydnabod y stereoteipiau hiliol sy'n sail i'w gynnwys:

# RHAN II: PECYN CYMORTH

| |
|---|
| Daw’r ddelwedd hon o'r 1920au. Mae'n dangos y Churchill’s Minstrels, grŵp minstrel a sefydlwyd gan Will Churchill tua 1906-07.<br><br>Roedd sioeau Minstrel yn fath o adloniant poblogaidd o ddechrau'r 19eg ganrif hyd at y 1970au. Roedd y sioeau hyn yn cynnwys perfformwyr gwrywaidd gwyn yn bennaf mewn wyneb du. Er eu bod wedi cael effaith amlwg ar gerddoriaeth boblogaidd, dawns ac agweddau eraill ar ddiwylliant poblogaidd, cawsant eu seilio ar y ffordd ddigrif o stereoteipiau hiliol ac maent bellach yn cael eu hystyried yn ecsbloetiol ac yn hiliol sarhaus. |

Mae'r disgrifiad hirach hwn yn addysgu darllenwyr am sioeau minstrel, a thrwy ddefnyddio'r geiriad "bellach yn cael eu hystyried yn ecsbloetiol ac yn hiliol sarhaus" mae'n adlewyrchu nad dyma'r farn oedd yn cael ei rhannu gan y mwyafrif o gynulleidfaoedd gwynion ledled Ewrop a'r Unol Daleithiau ar y pryd.

Er mwyn drafftio'r disgrifiad newydd, ymchwiliodd tîm CyWC i arferion gorau ac iaith briodol, a defnyddio nifer o ffynonellau cyfeirio i ddod i wybod mwy am sioeau minstrel. Mae Gwasanaeth Archifau Conwy bellach yn defnyddio'r disgrifiad diweddaraf hwn yn eu cofnodion eu hunain hefyd, ac rydyn ni’n ddiolchgar am eu cydweithrediad ar ein cam cyntaf i ddad-drefedigaethu Casgliad y Werin Cymru.

# RHAN III: ATEGOL

## 7. Ymatebion negyddol posibl

Byddai'n amhriodol i ni beidio â sôn y gallai fod ymatebion cryf a negyddol yn erbyn ein gwaith dad-drefedigaethu. Efallai y bydd rhai pobl yn ei ystyried yn ddehongliad ymwthiol neu'n ei labelu fel 'sensoriaeth'. Fodd bynnag, rydyn ni wedi ymrwymo i warchod a diogelu hanes amrywiol Cymru a'i phobl. Mae diweddaru disgrifiadau i'w gwneud yn fwy addysgiadol ac adlewyrchu anghenion cymdeithasol yn rhan sefydledig o arfer archifol a byddwn yn parhau i herio hiliaeth a rhagfarnau sy'n bodoli yn ein Casgliad.

Os ydych chi'n profi unrhyw ymateb negyddol neu gamdriniaeth ar ôl dad-drefedigaethu eich cynnwys yn ein Casgliad, cysylltwch â ni os oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i helpu: casgliadywerin@llgc.org.uk.

Mae treftadaeth ar gyfer pawb. Ac eto, yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018 i 2019, nid oedd 76% o'r ymatebwyr o gefndir ethnig leiafrifol wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant na threftadaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[7] Mae dad-drefedigaethu ein casgliadau yn gam pwysig tuag at eu gwneud yn llai rhagfarnllyd ac yn fwy cynhwysol i bawb.

### 7.1. Nodyn ar y cyfryngau cymdeithasol

Mae pobl yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fwyfwy i fynegi eu teimladau, pryderon neu gwynion. Ar y cyfryngau cymdeithasol efallai y bydd llai o ystyriaeth i dôn neu iaith cwyn o gymharu ag e-bost neu lythyr. Yn CyWC, oni bai ein bod yn derbyn sylwadau sy'n torri ein rheolau tŷ (ac os felly byddwn yn eu dileu), byddwn yn ymateb i'r holl adborth yn broffesiynol, yn gwrtais ac yn gyhoeddus. Rydyn ni'n glir ynghylch pam ein bod yn ymgymryd â'r gwaith hwn ac rydyn ni'n gobeithio bod y pecyn cymorth hwn yn darparu ffordd ymarferol i chi ddechrau arni hefyd.

# RHAN III: ATEGOL

## 8. Adnoddau Ychwanegol

### 8.1. Culture Heritage Terminology Network UK

Mae’r Cultural Heritage Terminology Network UK yn hyrwyddo cydweithio traws-sefydliadol ar faterion disgrifiad cynhwysol ac mae'r wefan yn rhestru dros 200 o adnoddau dad-drefedigaethu. Gallwch danysgrifio i'r e-gylchlythyr er mwyn cael gwybod y diweddaraf ar y Rhestr o Derminoleg Gynhwysol ac adnoddau eraill. (https://culturalheritageterminology.co.uk/)

### 8.2. Rhestrau cyfeirio dad-drefedigaethu

Mae nifer o adnoddau ynghylch dad-drefedigaethu yn y sector treftadaeth ac ni fyddwn yn atgynhyrchu pob un ohonyn nhw yma. Mae'r ddwy wefan ganlynol yn cynnwys rhestrau defnyddiol o gyfeiriadau sydd ar gael mewn mannau eraill, os hoffech wneud ymchwil pellach:

**Collections Trust**
Dad-drefedigaethu'r gronfa ddata: https://collectionstrust.org.uk/decolonisation/

**Cymdeithas yr Amgueddfeydd**
Dad-drefedigaethu Amgueddfeydd - Adnoddau: https://www.museumsassociation.org/campaigns/decolonising-museums/resources/

### 8.3. Dysgu ac adnoddau gwrth-hiliol DARPL

Mae CyWC wedi partneru gyda DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol), hwb dysgu proffesiynol ac adnoddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n dod â thîm amrywiol o ddarparwyr â phrofiad bywyd a phrofiad phroffesiynol at ei gilydd: https://darpl.org/. Bydd DARPL yn hyrwyddo cynnwys perthnasol CyWC i'r athrawon y mae'n gweithio gyda nhw.

# RHAN III: ATEGOL

Nod DARPL yw datblygu dealltwriaeth o arferion gwrth-hiliaeth a gwrth-hiliol o fewn y sector addysg, ond mae llawer o'u hadnoddau yn berthnasol i gynulleidfa ehangach. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Dysgu Proffesiynol – Bitesize: https://darpl.org/courses/
- Cyfres Uwch-arweinwyr:
    - *Sesiwn 1 – Myfyrdod diwylliannol: Creu diwylliant gwrth-hiliol: https://darpl.cymru/cyfres-i-uwch-arweinwyr-sesiwn-1-myfyrio-diwylliannol-creu-diwylliant-gwrth-hiliol/*
    - *Sesiwn 2 – Polisïau a gweithdrefnau: https://darpl.cymru/cyfres-i-uwch-arweinwyr-sesiwn-2-polisiau-a-gweithdrefnau/*
    - *Sesiwn 3 – Cynllunio ymlaen llaw: https://darpl.cymru/cyfres-i-uwch-arweinwyr-sesiwn-3-blaengynllunio/*

### 8.4. Pecyn Cymorth Amrywiaeth Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru

Fel y nodwyd yn y Cyflwyniad, mae dad-drefedigaethu yn broses ddiagnostig a datgymalol, tra bod gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth yn broses adeiladol. Fodd bynnag, maen nhw’n aml yn mynd law yn llaw. Os ydych chi’n dechrau gweithgareddau i ymgysylltu â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gyda'ch sefydliad diwylliannol (p'un a ydych yn archif, llyfrgell neu amgueddfa), rydyn ni’n argymell eich bod yn edrych ar Becyn Cymorth Amrywiaeth y Cyngor Archifau: https://archifau.cymru/wp-content/uploads/2022/06/Pecyn-Cymorth-Amrywiaeth.pdf.

Mae Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru (ARCW), gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, wedi creu Pecyn Cymorth Amrywiaeth, ynghyd â methodoleg arolwg ar gyfer casgliadau a map ffordd ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol. Dyma gam cyntaf project i wella ymwybyddiaeth o gasgliadau diwylliannol a mynediad atyn nhw ar gyfer pobl o fewn cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol: https://archifau.cymru/profiadiau-bywyd-pobl-ddu-asiaidd-ac-ethnig-leiafrifol/.

# RHAN III: ATEGOL

## 8.5. Canllaw Ymchwil ar gyfer Hanes Lleiafrifoedd Ethnig ym Morgannwg (Archifau Morgannwg)

Lluniwyd y canllaw hwn (Canllaw Ymchwil ar gyfer Hanes Lleiafrifoedd Ethnig - Archifau Morgannwg) gan Archifau Morgannwg ar gyfer ymchwilwyr i hanesion ethnig leiafrifol. Mae'n cyfeirio ymchwilwyr at gasgliadau o ddiddordeb a dulliau o adnabod unigolion a chymunedau nad oedd wedi'u hadnabod gynt neu heb gynrychiolaeth ddigonol. Drwy ddefnyddio astudiaethau achos seiliedig ar ddeunydd a gedwir yn yr archif, mae'n cyflwyno llwybrau tuag at ddatgelu hanes lleiafrifol. Mae'r canllaw yn gam sylweddol tuag at sicrhau bod cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cydnabod, eu deall a'u dathlu fel rhan annatod o dreftadaeth Morgannwg, ac mae ganddo rôl hanfodol mewn hyrwyddo cynwysoldeb hanesyddol, cydlyniant cymdeithasol, ac ymchwil yn y dyfodol yng Nghymru.
https://glamarchives.gov.uk/y-casgliad/canllawiau-ymchwil/minority-ethnic-history-research-guide/?lang=cy&cn-reloaded=1

# CYFEIRIADAU A NODIADAU

[1] Gweler, er enghraifft, blog Amgueddfa Cymru 2021: https://amgueddfa.cymru/blog/2394/Dad-drefedigaethu-Casgliad-Amgueddfa-Cymru---dechraur-daith/.

[2] Mae CyWC wedi penderfynu defnyddio'r Rhestr hon gan mai dyma'r unig rhestr ar raddfa fawr gyda gogwydd y DU, ac mae'n ystyried terminoleg drefedigaethol sy'n benodol Brydeinig. Mae'n cofnodi defnydd hanesyddol a chyfoes ac mae'n ehangu i ymgorffori iaith sy'n gysylltiedig â phob maes o nodweddion gwarchodedig. Ei nod hefyd yw casglu gwybodaeth o restrau eraill sy'n bodoli. Cafodd y rhestr ei chreu gan Carissa Chew gyda Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, a dyma'r Rhestr hefyd y mae Amgueddfa Cymru (un o'n partneriaid arweiniol) wedi'i mabwysiadu. Yn yr un modd, bydd y Llyfrgell Brydeinig yn parhau i wella ac ychwanegu at y Rhestr wrth iddynt weithio trwy eu casgliadau eu hunain.

[3] Mae'n bwysig ystyried lle i osod rhybudd cynnwys ar wefan neu mewn catalog. Os nad yw mewn lle amlwg neu berthnasol, mae'n annhebygol y bydd defnyddwyr yn ei ddarllen. Os ydych chi'n defnyddio'r pecyn cymorth hwn mewn perthynas â'ch gwefan neu gatalog eich hun, rydyn ni'n argymell ychwanegu eich rhybudd cynnwys cyffredinol at dudalen ar frig neu waelod hafan chwilio casgliad neu gatalog, neu ar frig neu waelod pob tudalen lefel eitem.

[4] Mae'r curadur a'r ymchwilydd casgliadau Kathleen Lawther wedi creu adnodd sy'n rhoi awgrymiadau ar gyfer cymhwyso rhybuddion cynnwys yn llwyddiannus i gynnwys casgliadau digidol a chronfeydd data amgueddfeydd sydd ar gael i'r cyhoedd: http://www.kathleenlawther.co.uk/resources/content-warnings-for-online-collections/; Mae Ellie King wedi ysgrifennu blog ar sut aeth East Sussex and Brighton and Hove Record Office (ESBHRO) ati i greu'r rhybudd cynnwys a'r Datganiad o Fwriad Catalogio Cynhwysol ar eu gwefan: https://collectionstrust.org.uk/blog/acknowledgement-and-accountability-creating-a-content-warning-for-the-keep/; Gellir gweld rhestr o hysbysiadau cynghori a rhybuddion cynnwys sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol eraill yn www.culturalheritageterminology.co.uk/resources/#examples-of-advisory-notices-policy

# CYFEIRIADAU A NODIADAU

[5] Yn 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol cyntaf: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol. Datblygwyd y Cynllun hwn mewn cydweithrediad ag ystod eang o gymunedau a sefydliadau, ac mae'n gosod gweledigaeth ar gyfer Cymru wrth-hiliol erbyn 2030.

[6] Yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru': https://llyw.cymru/y-fasnach-mewn-caethweision-ar-ymerodraeth-brydeinig-archwiliad-o-goffau-yng-nghymru. Roedd yr archwiliad yn ganlyniad grŵp gorchwyl a gorffen dan arweiniad Gaynor Legall i henebion, adeiladau ac enwau strydoedd hanesyddol Cymru sydd â chysylltiadau â'r fasnach gaethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig. Mae'n cynnwys rhestr o 204 o bobl o ddiddordeb ynghyd â 57 o henebion, 93 o adeiladau a lleoedd cyhoeddus, a 442 o enwau strydoedd sy'n gysylltiedig â nhw. (O safbwynt cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae hefyd yn rhestru 42 o bobl hanesyddol arwyddocaol o dreftadaeth Ddu sy'n cael eu coffáu yng Nghymru neu a allai gael eu coffáu yn y dyfodol.) Wedi hynny diwygiodd Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, ei ddisgrifiadau Adeiladau Rhestredig lle'r oedden nhw'n cynnwys pobl a restrwyd yn yr archwiliad. Yn yr un modd, yn 2020 cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ei 'Adroddiad Interim ar y Cysylltiadau rhwng Trefedigaethu a'r Eiddo sydd nawr yng Ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gan gynnwys Cysylltiadau â Chaethwasiaeth Hanesyddol': https://www.nationaltrust.org.uk/who-we-are/research/addressing-our-histories-of-colonialism-and-historic-slavery.

[7] Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, t. 55.

[8] Llun ar y Clawr: Mr Lacita Reid, Clive Dwyer a ffrind mewn tafarn leol, Casnewydd drwy Mr Lacita Reid. https://www.casgliadywerin.cymru/items/485826